LAMPETER TOWN COUNCIL **CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.**

COFNODION CYFARFOD MISOL
26ain O FEHEFIN 2008 AM 7.30PM
NEUADD Y DREF LLANBEDR P.S.

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawyd yr aelodau i'r Cyfarfod Misol gan y Maer Derek Wilson.

YN BRESENNOL

Cyng Maer Derek Wilson (Cadeirydd); Cecilia Barton; Andrew Carter; Elsie Dafis; John Davies; Margaret Davies-Evans; Greg Evans; Robert Harris; Lynda Mason-George; Robert Phillips; Kistiah Ramaya a Dorothy Williams. Mr Julian Evans; Zhong Xian (James)

2. YMDDIHEURIADAU

Cyng. Chris Thomas; Selwyn Walters. Mr Carl Stringer (Gohebydd y Wasg)

3. CYN DECHRAU'R CYFARFOD CAFWYD ANERCHIAD gan y gŵr busnes lleol Mr Julian Evans a'r myfyriwr Prifysgol Llambed o Tsieina Zhong Xian (James). Bu'r ddau ohonynt yn ymweld â Haiyang yn ddiweddar, atyniad twristiaeth ar arfordir Tsieina. Pwrpas yr ymweliad oedd ceisio annog buddsoddiad dwy-ochrog rhwng y ddinas Tsieineaidd, sy'n berchen ar boblogaeth o 700,000, a Chymru, o dan arweiniad y Cynulliad Cenedlaethol. Ceisiodd Mr Evans ddarbwyllo ei wahoddwyr Tsieineaidd i brynu nwyddau o Gymru gan gynnwys nwyddau'r Ganolfan Dechnoleg ym Machynlleth. Mae Tseina'n euog o lygredd ar y radd flaenaf; y mae felly o fudd iddynt geisio datrys y broblem drwy ystyried technoleg gwahanol. Gobeithir y bydd Llambed yn elwa o'r fuddsoddiad.

Disgrifiwyd Tseina gan y prif siaradwr fel gwlad, "dynamig ac yn ferw o brysurdeb", sy'n datblygu grym economaidd. Yn ystod eu hymweliad buont yn dyst i i drasiedi y ddaeargryn *Sichuan Province* a laddodd deg ar filoedd o bobl ac a wnaed mwy na hyn yn ddigartref. Cyflwynodd y gŵr busnes Llambed blac a llythyr i Maer y ddinas Changging Zou; yn ei ymateb cyflwynodd dau fedal aur i dref Llambed a baratowyd ar gyfer y Gemau Traeth Asiaidd 2012. Gwnaethpwyd ond 2012 o fedalau. I gloi, dywedodd Mr Evans iddynt gael "derbyniad bendigedig" ac iddynt hebrwng y Maer Zou ar apwyntiadau swyddogol yn feunyddiol mewn car yn berchen ar yrrwr.

4. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL

Bu i'r Cyng. Rob Phillips ddatgan budd personol wedi ei gyfleu'n ysgrifenedig ac wedi ei arwyddo ganddo, cyn ei gyflwyno i'r Clerc, pan yn trafod y Cais Cynllunio sydd wedi ei gynnwys o dan y pennawd 10.1.4 sef: Trosi'r garej presennol i estyniad sengl un-llawr, Green Cottage, Teras Greenfield, Llanbedr Pont Steffan. Rhif y Cais: A080525. Ymgeisydd: Mr Andy Bevan Green Cottage, Teras Greenfield, Llanbedr Pont Steffan.

5. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD - 29/05/2008

Derbyniwyd cofnodion Mis Mai fel rhai cywir.

6. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

Derbyniwyd ateb oddi wrth yr Uwcharolygydd Alun Harries ynglŷn â'r cais am gynnydd ym mhresenoldeb yr heddlu'n Llambed yn ystod oriau'r nos. Ar hyn o bryd lleolir y cyfanswm cywir o swyddogion yn Llambed. Byddai'n croesawi adnoddau ychwanegol dros yr holl sir, gan gynnwys Llambed, ond nid yw'n debygol o ddigwydd. Ei swydd ef yw sicrhau bod ei weithwyr yn cael eu rhannu'n gyson wedi ei seilio ar broffeil anghenion led-led y Sir. Wedi adolygu y nifer a glustnodwyd i wahanol ardaloedd yn ddiweddar nid oedd cyfiawnhad i adleoli staff ychwanegol i Lambed ar hyn o bryd. Nid oedd yn ymwybodol o ddigwyddiad yn lleol ble nad oedd yr heddlu wedi llwyddo i ddelio â'r argyfwng.

7. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

7.1 Cyfethol aelod newydd ar gyfer y Cyngor Tref: yn disgwyl ateb oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion (GSC) parthed y mater.

7.2 Y Ddarpariaeth o Arwyddion Newydd ar gyfer y dre: Mae dyluniadau wedi eu hanfon at y gwneuthurwyr ac yn disgwyl gwybodaeth pellach.

7.3 Biniau ar gyfer casglu gwastraff ailgylchadwy: Darparwyd gwybodaeth pellach yn ymwneud â'r fath o finiau sydd eu hangen a'u pris gan y Cyng. R.Phillips. Cyfeiriwyd y wybodaeth at sylw'r Cyng. C.Thomas i'w gynnwys yn y cais i'r gystadleuaeth Cadwch Cymru'n Daclus.

7.4 Materion Traffig

Derbyniwyd ateb oddi wrth GSC

7.4.1 Sgriwiau'n rhydd- arwydd tu allan i Neuadd y Dref ar y Stryd Fawr- wedi ei atgyweirio ar ddechrau Ebrill;

7.4.2 Y manol ger yr Archfarchnad Somerfield: ar eiddo preifat, dylid cyfeirio'r broblem at sylw'r Reolwr yr Archfarchnad.

7.4.3 Mae'r ffynnon ar Sgwâr y Dref yn awr yn dal dŵr.

7.4.4 Dŵr yn crynhoi ger mynedfa'r Orsaf Ambiwlans: yn disgwyl ateb.

7.4.5 Mae'r arwydd ger llyfrgell y dref angen ei atgyweirio;

7.4.6 Mae angen arwydd "Rhoi Cyfle i draffig o Gyfeiriad Arall" ar Heol y Porthmyn ar y groesffordd ger y Stryd Newydd, fel yr oedd yn y gorffennol.

7.5 Ymddygiad gwrth-gymdeithasol o dan yr arch ger Neuadd y Dref: Ymateb oddi wrth Kate Butler i'r llythyr anfonwyd ati gan y Cyngor Tref parthed plant yr ysgol yn ysmygu ac yn poeri o dan yr arch, Neuadd y Dref. Roedd yn gwerthfawrogi ei fod yn sefyllfa anodd i'w datrys . Yn ogystal ag atal adwerthwyr rhag gwerthu sigarets i bobl ieuainc o dan 18 mlwydd oed, roedd yn holi tybed a fyddai'n bosibl i drefnu gwersi rhoi'r gorau i ysmygu wedi eu hanelu at bobl ieuainc. Nid oedd am bardduo y pobl ieuainc dan sylw ond roedd yn poeni eu bod yn ysmygu mor agored, y peth cyntaf yn y bore, a oedd yn awgrymu arferiad cyson y gallent ddyfaru mewn blynyddoedd i ddod. Cyfeiriwyd y llythyr at sylw'r Prifathro yr Ysgol Uwchradd Llanbedr PS. Derbyniwyd e-bost oddi wrth y Blismones Jo Grey yn mynegi fod y broblem hon wedi ei blaenoriaethu gan yr heddlu a byddant yn dal i fod yn wliadwrus.

7.6 Datblygiad Tai Newydd yn Heol y Wig; cynigodd y datblygwr yr enw Maes Hyfryd: gall cynigion gwahanol gael eu cyflwyno gan y Cyngor Tref: pleidleisiodd aelodau'r Cyngor Tref am yr enw "MaesHyfryd".

7.7 Cynllun Tref Taclus: Y Cyng. Greg Evans i gyflwyno'r cais.

7.8 Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad Newydd – adborth y cyfarfod o'r 9/10fed o Fehefin a fynychwyd gan y Cyng. D.Williams, R.Phillips a'r Clerc. Dosbarthwyd gwybodaeth pellach parthed y Cod Ymddygiad Newydd. Sefydlwyd fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru gan Ran 111 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

Prif Nodweddion y Fframwaith Moesegol:

7.8.1 Egwyddorion sy'n llywio ymddygiad cynghorwyr;
7.8.2 Cod Ymddygiad;
7.8.3 Datgelu Buddiannau;
7.8.4 Gollyngiadau;
7.8.5 Pwyllgorau Safonau;
7.8.6 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

7.8.1 Egwyddorion sy'n llywio ymddygiad cynghorwyr

Anhunanoldeb; Gonestrwydd; Uniondeb a Gwedduster; Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith; Stiwardiaeth; Gwrthrychedd wrth Wneud Penderfyniadau; Cydraddoldeb a Pharch; Bod yn Agored; Atebolrwydd a Rhoi Arweiniad.

7.8.2 Cod Ymddygiad

Mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi Cod Enghreifftiol newydd ym Mawrth 2008. Mae Gorchymyn 2008 yn dirymu ac yn disodli cod ymddygiad enghreifftiol a gyflwynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym 2001. Mae'n orfodol a rhaid mabwysiadu'r Cod erbyn Medi 2008. Mae Cyngor Tref Llambed wedi mabwysiadu'r Cod newydd eisoes.

7.8.2.1 Datganiad Derbyn Swydd

Wrth dderbyn swydd cynghorydd, rhaid ymrwymo i gadw at y Cod; nid yw'n bosibl i gyflawni dyletswyddau cynghorydd heb fod y cynghorydd wedi llofnodi'r datganiad hwnnw. Mae modd diswyddo cynghorydd nad yw'n addo gweithredu'n ôl y Cod. Mae aelodau Cyngor Tref Llambed wedi arwyddo'r Datganiad Derbyn Swydd ar yr 8fed o Fai 2008 ac ymddangosodd rhybudd yn y Wasg yn cyhoeddi'r ffaith. Rhoddwyd gyfle hefyd i aelodau'r Cyhoedd i archwilio'r Cod ac anfonwyd copi o'r Cod at Ombwdsmon Cymru.

7.8.2.2 Pryd mae'r Cod yn gymwys?

- Cynnal busnes y Cyngor neu'n mynychu un o gyfarfodydd y Cyngor;
- Gweithredu fel aelod neu fel cynrychiolydd;
- Gweithredu fel y sawl a benodwyd neu a enwebwyd gan y Cyngor i fod ar unrhyw gorff arall sydd heb ei god ymddygiad ei hun;
- Bywyd preifat mewn rhai amgylchedd.

7.8.2.3 Dyletswyddau Cynghorydd

- Dyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb;
- Amlygu parch ac agwedd ystyrgar;
- Dim bwli nac aflonyddu;
- Peidio â chyfaddawdu diddueddrwydd y sawl sy'n gweithio i'r Cyngor;
- Dim datgelu gwybodaeth gyfrinachol;
- Dim rhwystro pobl rhag mynnu gwybodaeth;
- Peidio â dwyn anfri ar eich swydd neu ar y Cyngor

- Tynnu sylw at dor-cyfraith;
- Tynnu sylw'r Ombwdsmon a'r Swyddog Monitro at unrhyw un sy'n torri'r Cod;
- Peidio â chyflwyno cwynion blinderus; maleisus na gwacsaw;
- Rhaid cydymffurfio â gofynion y Swyddog Monitro neu'r Ombwdsmon ynghylch ymchwilio;
- Dim ffafrio na chreu/osgoi anfantais;
- Defnyddio adnoddau'n briodol yn ôl y gyfraith- dim defnydd preifat amhriodol;
- Penderfynu yn ôl rhinweddau'r achos a lles y bobl;
- Rhesymau dros benderfyniadau;
- Osgoi rhoddion neu letygarwch a allai arwain at ymrwymiad amhriodol.

7.8.3 Datgan Buddiannau

7.8.3.1 3 Cwestiwn

- A yw'r Cod yn berthnasol?
- A oes gennych fuddiant PERSONOL?
- A oes gennych fuddiant sy'n RHAGFARNU?

7.8.3.2 BUDDIANNAU PERSONOL: 3 categori

- Cyflogaeth, busnes, contractau, eiddo, cyrff cyhoeddus a chyrff a chymdeithasau eraill (para 10(2) (a))
- Materion sydd yn achosi gwrthdaro rhwng eich rôl o ran gwneud penderfyniad a'ch rôl o gynrychioli'r ward (para 10 (2) (b)) – amherthnasol ar gyfer Cynghorwyr Tref
- Materion sydd yn effeithio, i raddau helaethach na'r rhan fwyaf o drigolion y ward, ar eich lles neu'ch sefyllfa ariannol NEU les, sefyllfa ariannol neu fuddiannau eraill unrhyw berson yr ydych yn cydfyw ag ef neu y mae cysylltiad personol agos gennych ag ef (para 10 (2)(c)).

7.8.3.3 BUDDIANNAU PERSONOL- BETH I'W WNEUD? CEWCH CHI AROS

- Datganwch eich buddiant yn ystod y cyfarfod, rhowch hysbysiad ysgrifenedig i'r Clerc sydd yn cynnwys manylion ynglŷn â'ch buddiant, manylion ynglŷn â'r eitem agenda o dan drafodaeth, eich llofnod. Gallwch gymryd rhan. (os rydych yn datgan diddordeb ar yr un mater am yr ail dro gallwch ei ddatgan ar lafar yn unig).

7.8.3.4 BUDDIANNAU SY'N RHAGFARNU

- A fyddai aelod o'r cyhoedd sy'n adnabod y ffeithiau perthnasol yn ystyried yn rhesymol bod eich buddiant personol mor arwyddocaol nes bod hynny'n debygol o ragfarnu'ch barn am fuddiant y cyhoedd? EITHRIAD: grantiau i gyrff cymunedol neu wirfoddol hyd at £500.

7.8.4 BUDDIANNAU SY'N RHAGFARNU – BETH i'W WNEUD? – RHAID GADAEL

- Datganwch eich buddiant yn ystod y cyfarfod; rhowch hysbyseb ysgrifenedig; GADEWCH yr ystafell tra bod y mater o dan drafodaeth; ONIBAI fod Is-Bwyllgor Safonau y Cyngor Sir wedi rhoi gollyngiad i chi.

7.8.5 Pwyllgorau Safonau a 7.8.6 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
TORRI'R COD YMDDYGIAD

- Gwnaed honiadau i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae 4 categori.
  -Dim tystiolaeth bod y Cod wedi'i dorri;
  -Er bod tor-cod, fydd dim eisiau cymryd camau;
  -Cysylltu â'r swyddog Monitro;
  -Cysylltu â Phanel Dyfarnu Cymru.

- Swyddog Monitro/Is-Bwyllgor Safonau
- Panel Dyfarnu Cymru.

COFRESTRU BUDDIANNAU AELODAU: nid oes angen cwblhau cofrestr bellach (ond mae dal angen rhoi hysbysiad ysgrifenedig ar ôl datgan buddiant- gweler uchod).
COFRESTRU RHODDION A LLETYGARWCH: rhaid i gynghorwyr ddatgan eu bod wedi derbyn rhodd neu letygarwch sy'n fwy na'r gwerth a bennir gan y Cyngor ei hun. Bydd rhaid i Gyngor Tref Llambed ddiffinio'r gwerth h.y. pa werth sy'n uwch na'r gwerth a bennir gan y Cyngor Tref y bydd rhaid ei ddatgan.

7.9 Cynigion i'w trafod Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Un Llais Cymru: penderfynwyd i beidio â chyflwyno cynigion i'w trafod yn ystod y CBC, Un Llais Cymru, eleni. Gellir ei hystyried yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

7.10 Cyflwyno tarian - i Ysgol Uwchradd a Gynradd Llanbedr PS ac i'r rhai sy'n dathlu penblwydd arbennig: penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd am y tro.

8. GOHEBIAETH

8.1 Cynnig ar gyfer newid y gofod awyr a ganiateir ar gyfer Systemau Awyrennau Di-griw Cymru (Parc Aberporth) LLCC: nodwyd er gwybodaeth.

8.2 Ombwdsman: Adroddiad Blynyddol 2007-08: er gwybodaeth.

8.3 Mabwysiadu Bryn Steffan (Rhan 2) Llanbedr Pont Steffan / CSC: er gwybodaeth.

8.4 Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol; Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig. 28/06/2008 2pm Plas Dolerw, Y Drenewydd: er gwybodaeth.

8.5 Dŵr Cymru: parthed llifogydd ar Stryd y Farchnad a Heol Cambrian yn ystod yr Haf 2007: yn dilyn y cyfarfod rhwng cynrychiolaeth y Cyngor Tref a'r Rheolwr Rhwydwaith Richard Lewis a'r Peiriannydd Richard Davies ym mis Gorffennaf 2007 cariwyd allan ymchwiliad Camerau Teledu Cylch Cyfyng (CTCC) yn ardal Stryd y Farchnad a Heol Cambrian. Dangosodd yr ymchwiliad gasgliad o laid a deilchion yn y carthffosydd. Glanhawyd y carthffosydd a'u dychwelyd i'w safon mwyaf gweithredol. Nid oes problemau ychwanegol wedi eu hadrodd i Ddŵr Cymru ers yr amser hyn ond os oes problemau'n codi gall trigolion ffonio'r ganolfan galw 24 awr ar 0800 0853968, gall criw o bobl gael eu ryddhau i archwilio ac i ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen. (Rhif cyswllt Mr Matthew Davies, Swyddog Cwynion gan Gwsmeriaid

yw 08712000 943). Penderfynwyd i gysylltu â Dŵr Cymru i ofyn tybed os oes arolygon yn cael eu cario allan yn gyson.

8.6 **Adroddiad Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol 2006-07** & Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol Mawrth 2008 Llywodraeth Cynulliad Cymru: er gwybodaeth.

8.7 **Cynllun Hyfforddiant Cenedlaethol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned:** Un Llais Cymru: Mae'r 6 modiwl yn cwmpasu: Y Cyngor; Y Cynghorydd; Y Cyngor fel Cyflogwr; Deall y Gyfraith; Cyfarfodydd y Cyngor a Deall Cyllid Llywodraeth Leol. Penderfynwyd i drafod y mater ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf.

8.8 Carnifal Llambed 2008: derbyniwyd e-bost oddi wrth Jana Davidson, Arweinydd Sgowtiaid Afancod Llambed yn gofyn am fanylion cyswllt Carnifal Llambed 2008. Adroddodd y Cyng Williams nad oedd Pwyllgor y Carnifal wed ei sefydlu eleni. Penderfynwyd i geisio sefydlu pwyllgor. Byddai erthygl yn ymddangos yn y Cambrian News yn apelio am wirfoddolwyr ar gyfer y pwyllgor. Byddai manylion cyswllt y Maer yn cael eu dyfynnu'n yr erthygl. Mae'r Sgowtiaid hefyd am logi alotiad ; penderfynwyd eu cyfeirio at Mr Peter Matthys CSC.

8.9 Balchder Bro Ceredigion: llythyr oddi wrth Rachel Mills Cydlynydd Balchder Bro CSC yn amlinellu ei rôl ee i gynyddu ymwybyddiaeth am effeithiau troseddau amgylcheddol lefel isel (taflu sbwriel, baeddu cŵn ayyb); i weithio â chymunedau lleol i drefnu glanhau "mannau budr" lleol.; clustnodi a gwella adeiladau a thiroedd agos at fannau preswyl sydd wedi'u hesgeuluso ac sy'n niweidiol i amwynder yr ardal. Ei chyfeiriad e-bost yw rachelm@ceredigion.gov.uk.

9. MENTER LLAMBED

Adroddodd y Cyng. G.Evans bod y pwyllgor y Dref Drawsnewidiol yn dal i ddisgwyl ateb i'w cais am gymhorthdal.

10. CYNLLUNIO

10.1 Ceisiadau

10.1.1 Newid Ffenestri a Drysau, Tŷ'r Eglwys, Llambed. Rhif y Cais: A080489LB: Ymgeiswyr: Ymddiriedolwyr Eglwys San Pedr, Llambed: **Cefnogwyd.**

10.1.2 Newid defnydd ar gyfer siop "Tattoo" ac Oriel Celf: Tŷ Tauistock, 17 Sgwâr Harford, Llambed: Rhif y Cais A080438. Ymgeisydd: Ainsbury-Panesh, Rhydyfelin, Pentre, Tregaron. **Cefnogwyd.**

10.1.3 Codi estyniad i'r cefn: Rhif 4, Teras Glandulais, Llambed SA48 7HP. Rhif y cais A080472. Ymgeisydd: SE & BS Jones, Maes y Berllan, Cellan, Llanbedr Pont Steffan. **Cefnogwyd.**

10.1.4 Trosi'r garej presennol i estyniad sengl un-llawr, Green Cottage, Teras Greenfield, Llanbedr Pont Steffan. Rhif y Cais: A080525. Ymgeisydd: Mr Andy Bevan Green Cottage, Teras Greenfield, Llanbedr Pont Steffan. **Cefnogwyd.**

10.2 Gwrthodwyd gan GSC

Dymchwel adeilad presennol a chodi adeilad newydd i gynnwys 2 fflat a stiwdio artist, 56 Heol y Bont, Llanbedr Pont Steffan. Rhif y cais A071116. **Rhesymau**

10.2.1 Mae'n bolisi gan GSC i ganiatau datblygiad preswyl os nad oes yna wrthwynebiad trafnidiaeth/mwyniant/darpariaeth gwasanaeth

neu cynllunio lleol i'r cynnig. Y mae cryn dipyn o wrthwynebiad o ran mwyniant, trafnidiaeth a chynllunio lleol i'r cynnig sy'n wrthwyneb i'r canllawiau Polisi H3 y Cynllun Datblygu.

10.2.2 **Byddai'r datblygiad arfaethedig** yn cael effaith anffafriol ar gymeriad ac arddangosiad yr ardal sy'n syrthio o fewn yr Ardal Cadwraeth.

10.3 Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin: nodwyd er gwybodaeth.

11. CYLLID

11.1 Shelter Cymru £25.00 Rhif y Siec: 001597
11.2 Viking Direct £49.31; £8.56 TAW Rhif y Siec 001599
11.3 Cyflog y Clerc Mehefin 2008 £463.95 Rhif y Siec 001598
11.4 Treth Incwm: £86.58 Rhif y Siec 001597
11.5 Gwres/Golau/Costiau Storio: £20.00 Rhif y Siec 001595
11.6 Cost Cludiant £67.06 Rhif y Siec 001594
11.7 Lwfans y Maer (Cyng. C.Thomas am fis Mai 2008- mis ychwanegol) £215.64 Rhif y Siec: 001584
11.8 **Cyfraniad Yswiriant Cenedlaethol:** (Cyflogwr –yn ddyledus ar gyfer 2007-08) £161.93 Rhif y Siec:001584
11.9 Penderfynwyd i beidio â chyfrannu'n ariannol at yr elusen *Relate* sy'n ymroi i helpu pobl o bob oedran yn eu perthynas ag eraill. Ar hyn o bryd ni chynigir gwasanaeth yn Llambed. Gwnaed ymdrech i ddechrau gwasanaeth ym 2007 ond methiant bu'r ymgais a chau a wnaeth o fewn mis oherwydd diffyg hysbysebu. Beth bynnag, gwelir Llambed yn le delfrydol ar gyfer cynghori ar gyfer y dyfodol; mae cynghorydd yn byw yn y dref. Petaent yn medru dod o hyd i leoliad addas, byddent yn ystyried ail-ddechrau'r gwasanaeth.
11.10 Derbyniwyd llythyr oddi wrth y mudiad Child-Line yn diolch i'r Cyngor Tref am y cyfraniad o £25.00.
11.11 Cafodd enw Archwiliwr Mewnol ei awgrymu. Bydd rhaid ymgymryd â'r archwiliad cyn y 21/07/2008.

12. IS-BWYLLGORAU

12.1 Newidiadau ar gyfer is-bwyllgorau
Penderfynwyd i beidio â newid cynrychiolwyr yr Is-bwyllgorau sydd a ganlyn:

12.1.1 **Palmantau:** Cyng C.Thomas; L.Mason-George; E.Dafis; R.Phillips.
12.1.2 **Goleuadau:** Cyng J.Davies; D.Wiliams; M. Davies-Evans; G.Evans;
12.1.3 **Llwybrau Cerdded:** Cyng A. Carter; R.Harris; S.Walters; C.Barton;
12.1.4 **CTCC:** Cyng R.Harris; R.Philips; K.Ramaya
12.1.5 **Yr Iaith Gymraeg:** Cyng R.Phillips, D.Williams; C.Thomas; S.Walters.

12.2 **LLWYBRAU CERDDED** (gan gynnwys Parc-yr-Orsedd)

12.2.1 Adleoli'r Bloc o graig ym Mharc-yr-Orsedd
Penderfynwyd i gau pen y mwdwl parthed y mater ac i dalu'r £900 angenrheidiol ar gyfer adleoli'r bloc o graig i le mwy diogel. Hysbyswyd aelodau y byddai cynrychiolwyr y Cyngor Chwaraeon yn ymweld â Pharc yr Orsedd yn ystod y 12 wythnos

i archwilio'r offer newydd. Bydd y Cyng. G.Evans a H.Harris yn cyfarfod y cynrychiolwyr ar y safle.

12.2.2 **Plannu bwlbiau Cennin Pedr –Apêl am wirfoddolwyr i dacluso Parc-yr-Orsedd ar gyfer y gystadleuaeth "Cymru yn ei Blodau**":daethpwyd o hyd i 4 gwirfoddolwr ar gyfer y bore Sadwrn canlynol. Mae'r beirniad *Cymru yn ei Blodau* i fod i ymweld â Llambed ar y 23ain o Orffennaf.

12.2.3 **Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Ceredigion** Drafft Ymgynghori CSC Bydd y Cyng A Carter yn ymateb i'r Ymgynghoriad.

12.3 PALMANTAU

12.3.1 **Manol:** mae'r manol ger yr Ystablau (Mews) Swyddfa Post yn beryglus. I adrodd y nam at sylw'r CSC.

12.3.2 **Mae yna slabiau'n rhydd ar y llwybr sy'n** arwain o Eglwys Sant Pedr i Ystâd Maesyderi.

12.4 GOLEUADAU STRYD

12.4.1 **Mae golau stryd** sydd wedi ei leoli ar faes yr Archfarchnad Somerfiled ynghyn drwy'r dydd- i adrodd i GSC.

12.4.2 **Adroddwyd fod y golau ger y Swyddfa Ddosbarthu** Teras yr Orsaf yn dal yn ddiffygiol; i adrodd y mater unwaith yn rhagor at sylw'r CSC.

12.5 CTCC

12.5.1 Yr Adroddiad Misol – Mis Mai – CSC: bu yna 2 gais i edrych ar ddeunydd digidol gan yr heddlu'n ymwneud â lladrad. Yn ôl yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Mr Bleddyn Jones CSC ar y 26ain o Fehefin mae'r gwaith o uwchraddio'r ddolen radio wedi ei gwblhau, ond y mae problemau cydweddiad yn dal i fodoli rhwng y pecynnau meddalwedd yr ystafell Reoli. Beth bynnag, mae'r 6 camera yn awr yn gweithio a mae'r rheolaeth, ar y cyfan yn dda ac yn meddu ar ansawdd recordio o safon dda. Mae'r contractwr yn dal i weithio ar y mater o gydweddiad. Penderfynwyd i ddarganfod oriau monitereiddio'r camerau ac i gyfleu mai blaenoriaeth y Cyngor Tref yw yn y nos ac yn ystod y pen-wythnos ee 8:00pm i 3:00am. Ynglŷn â'r ymweliad â'r Ystafell Reoli byddai'r Cyngor Tref yn croesawi ymweliad yn yr Hydref pan fydd yr oriau o dywyllwch wedi cynyddu.

13. U.F.A.

13.1 **Mae'r hysbysfwrdd ger Llyfrgell y Dref** yn mynd â'i ben iddo. (DW)

13.2 **Penderfynwyd i drafod amserau parcio** ym maes parcio'r Cwmins yn ystod y cyfarfod nesaf.

14. Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Nos Iau 31ain o Orffennaf am 7:30pm yn Neuadd y Dref. Penderfynwyd cynnal cyfarfod misol ym mis Awst.